



Swansea University
Prifysgol Abertawe

Polisi a Gweithdrefnau Buddsoddi Moesegol

Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Mehefin 2014

1. Cyflwyniad

Buddsoddir cronfeydd gwaddol y Brifysgol drwy reolwyr buddsoddi'r Brifysgol, sef Barclays Wealth ar hyn o bryd. Mae Prifysgol Abertawe'n bwriadu buddsoddi'r cronfeydd mewn ffyrdd sy'n gyson â chenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol, fel y nodir yn y Cynllun Strategol. I'r perwyl hwn, mae'r Brifysgol wedi ymroddi i fabwysiadu'r Polisi Buddsoddi Moesegol canlynol o ran buddsoddi'r cronfeydd hyn.

Rydym yn ymroddedig i sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud pob penderfyniad ynghylch buddsoddi yn gyfrifol, gyda'r egwyddor arweiniol sylfaenol o greu elw, drwy incwm neu dwf cyfalaf, er mwyn cynyddu gwaith y Brifysgol. Rhoir ystyriaeth i faterion cymdeithasol wrth wneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi hefyd.

2. Cwmpas

Bydd y polisi hwn yn gymwys ar gyfer buddsoddi cronfeydd gwaddol y Brifysgol.

Mae'r cynlluniau pensiwn a ddefnyddir gan y Brifysgol yn cyfrif fel cyrff corfforaethol ar wahân, gyda'u Bwrdd Ymddiriedolwyr eu hunain, ac nid ydynt o fewn cwmpas y polisi hwn.

3. Polisi

3.1 Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i sicrhau y gwna bob penderfyniad ynghylch buddsoddi yn gyfrifol, gyda'r nod o gyflawni cydbwysedd rhwng uchafu elw drwy incwm neu dwf cyfalaf er mwyn cynyddu gwaith y Brifysgol a buddsoddi mewn modd moesegol.

3.2 Nid yw'r Brifysgol yn buddsoddi'n uniongyrchol, na thrwy gyd-gronfeydd, mewn sefydliadau sy'n ymwneud yn bennaf â'r diwydiant tybaco, neu sy'n ennill swm

sylweddol o'u trosiant drwy gynhyrchu cynnyrch tybaco. At ddibenion y polisi hwn, ystyr 'sylweddol' fydd mwy na 10% o'u trosiant.

3.3 Wrth benderfynu pa gwmnïau i fuddsoddi ynddynt, ni fydd yn Brifysgol yn buddsoddi mewn cwmnïau neu sefydliadau eraill y mae'n ymwybodol bod eu gwerthoedd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn anghyson â rhai'r Brifysgol; neu y mae eu gweithgareddau, ym marn rheolwr y gronfa, yn anghyson â chenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol.

4. Gweithdrefn Ymgysylltu

4.1 Cyhoeddir y polisi ar wefan y Brifysgol er mwyn caniatáu i randdeiliaid perthnasol ymgysylltu ag ef.

4.2 Bydd y Brifysgol yn cyhoeddi rhestr o gwmnïau a chronfeydd y buddsoddwyd y cronfeydd gwaddol ynddynt bob blwyddyn. Bydd y rhestr hon ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Cyllid.

4.3 Gall unrhyw gorff cynrychioladol o fewn y Brifysgol (Undeb y Myfyrwyr, Undeb Llafur neu Bwyllgor) osod cyflwyniadau gerbron yr Is-bwyllgor Buddsoddi ynghylch unrhyw fuddsoddiad mewn cwmni neu gronfa y mae ei weithgareddau neu werthoedd yn ymddangos, ar sail tystiolaeth eglur, eu bod mor bell o werthoedd craidd y Brifysgol eu bod yn fater pryder difrifol. Dylid gosod cyflwyniadau felly gerbron Rheolwr Cynladwyedd y Brifysgol yn y lle cyntaf.

4.4 Bydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi'n ystyried unrhyw gyflwyniadau o'r fath, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Buddsoddi penodedig, yn erbyn y meini prawf canlynol:

- A oes sail i'r materion a gyflwynwyd;
- I ba raddau maent yn peri i'r buddsoddi dorri cenhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol, fel y nodir yn y Cynllun Strategol;
- Effaith ar risg, elw ac amrywiaeth y portffolio buddsoddi.

Ar sail y meini prawf hyn, bydd yr Is-bwyllgor Buddsoddi yn penderfynu p'un ai y dylid parhau â'r buddsoddiad perthnasol ai peidio, a bydd yn rhoi'r rhesymau dros hyn i'r grŵp a fynegodd y pryder.

5. Adolygu a Pherchnogaeth y Polisi

5.1 Y Cyfarwyddwr Cyllid fydd perchennog y polisi hwn, a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan yr Is-bwyllgor Buddsoddi.